BRO MORGANNWG

RHYBUDD O ETHOLIAD

ETHOL CYNGHORYDD/CYNGHORWYR TREF/CYMUNED

WARD	NIFER Y CYNGHORWYR A ETHOLIR
Cyngor Cymuned Gwenfo - Ward Gwenfo	7
Cyngor Cymuned Gwenfo - Ward Llwyneliddon	1

1. Rhaid cyflwyno papurau enwebu i'r Swyddog Canlyniadau heb fod yn hwyrach na **4pm ddydd Iau 28 Ebrill 2022**.

2. Gellir cyflwyno papurau enwebu i'r Swyddog Canlyniadau yn y Swyddfeydd Dinesig rhwng **10am** a **4pm** ar unrhyw ddiwrnod gwaith o ddyddiad cyhoeddi'r hysbysiad hwn (ac eithrio gwyliau banc) neu'n electronig yn unol â'r trefniadau a nodir yn y datganiad cyflwyno'n electronig isod.

3. Gellir cael papurau enwebu gan y Swyddog Canlyniadau naill ai yn swyddfeydd Cyngor Bro Morgannwg, Swyddfeydd Dinesig, Heol Holltwn, Y Barri, CF63 4RU neu'n electronig drwy www.valeofglamorgan.gov.uk/cy/our_council/Council-Structure/Elections/Local-Government-Election.aspx o **20 Ebrill 2022** tan **28 Ebrill 2022**.

4. Os ymleddir unrhyw etholiad, caiff y bleidlais ei chynnal **Ddydd Iau 26 Mai 2022**.

5. Rhaid i geisiadau am gofrestru i bleidleisio gyrraedd y Swyddog Cofrestru Etholiadol erbyn **12 canol nos ddydd Mawrth 10 Mai 2022**. Gellir gwneud ceisiadau ar-lein: www.gov.uk/cofrestru-i-bleidleisio.

6. Rhaid i geisiadau, diwygiadau neu gansladau pleidleisiau post gyrraedd y Swyddfa Cofrestru Etholiadol yn y Swyddfeydd Dinesig, Heol Holltwn, Y Barri CF63 4RU erbyn **5pm ddydd Mercher 11 Mai 2022**.

7. Rhaid i geisiadau i bleidleisio drwy ddirprwy yn yr etholiad hwn gyrraedd y Swyddog Cofrestru Etholiadol yn y Swyddfeydd Dinesig, Heol Holltwn, Y Barri, CF63 4RU erbyn **5pm ddydd Mercher 18 Mai 2022**.

8. Rhaid i geisiadau i bleidleisio drwy ddirprwy brys yn yr etholiad hwn gyrraedd y Swyddog Cofrestru Etholiadol yn y Swyddfeydd Dinesig, Heol Holltwn, Y Barri, CF63 4RU erbyn **5pm ddydd Iau 26 Mai 2022**.

Datganiad cyflwyno'n electronig

9. Rhaid cyflwyno papurau enwebu a gyflwynir yn electronig yn unol â'r trefniadau a nodir yn y datganiad hwn.

10. Y cyfeiriad e-bost i gyflwyno enwebiadau yw nominations@valeofglamorgan.gov.uk. Defnyddiwch y cyfeiriad e-bost hwn ar gyfer unrhyw ymholiadau a/neu wiriadau anffurfiol. Dylai'r pwnc gynnwys enw'r ymgeisydd a'r blaid gysylltiedig (os yw'n berthnasol).

11. Byddem yn eich cynghori'n gryf i wirio bod eich papurau enwebu wedi ein cyrraedd yn ddiogel drwy ffonio 01446 709304.

12. Cyfrifoldeb ymgeiswyr yw sicrhau bod y Swyddog Canlyniadau yn derbyn y papurau enwebu yn y ffordd gywir erbyn y dyddiad cau gofynnol.

13. Nid yw derbynneb darllen electronig gan y Swyddog Canlyniadau yn gadarnhad bod yr enwebiad yn ddilys. Bydd y Swyddog Canlyniadau yn anfon hysbysiad i roi gwybod i ymgeiswyr am ei benderfyniad ynghylch a yw eu henwebiad yn ddilys ai peidio.

14. Os oes angen unrhyw gymorth arnoch i gyflwyno enwebiadau'n electronig, cysylltwch â'r Rheolwr Gwasanaethau Etholiadol ar 01446 709304.

ROB THOMAS
SWYDDOG CANLYNIADAU
DYDDIEDIG: 20 EBRILL 2022

Printed & Published by the Returning Officer, Civic Offices, Holton Road, Barry, Vale of Glamorgan, CF63 4RU
Argraffwyd a Chyhoeddwyd gan y Swyddog Canlyniadau, Swyddfeydd Dinesig, Heol Holton, Y Barri, Bro Morgannwg CF63 4RU